



BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

CYSUR a CWMPAS

THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL | ANNUAL PLAN

2024-2025



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Gwasanaeth Prawf
Cenedlaethol
National Probation
Service



Heddlu • Police
DYFED-POWYS

Diogelwch ein Cymuned - Safeguarding our Community



CYFLWYNIAD

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi a chyflwyno eu hwythfed cynllun strategol blynyddol ar y cyd ar gyfer 2024-2025. Yn ein barn ni, mae CYSUR a CWMPAS yn parhau i fod yn ffynhonnell gyson o gryfder wrth hyrwyddo arfer diogelu rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y sylfaen gref sydd gennym fel bwrdd.

Rydym wedi cynhyrchu cynllun uchelgeisiol a rhaglen waith, sy'n adeiladu ar ein cyflawniadau y llynedd. Blaenoriaeth allweddol i ni eleni yw parhau a chwblhau ein gwaith ar arwain datblygiad fframwaith dysgu a datblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Bydd hyn yn sefydlu fframwaith hyfforddi a dysgu cynhwysfawr ledled Cymru a fydd bellach yn ymgorffori ac yn cofleidio dysgu amlasiantaeth o adolygiadau lladdiadau domestig a lladdiadau iechyd meddwl yn ogystal ag adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.

Mae'r angen am rannu gwybodaeth yn well ar draws asiantaethau mewn arferion diogelu yn parhau i fod yn rhan o adolygiadau ymarfer cenedlaethol a rhanbarthol. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn cychwyn ar raglen waith uchelgeisiol ac arloesol a fydd yn ceisio cryfhau'r maes ymarfer hwn, gan ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg a llwyfannau digidol. Edrychwn ymlaen at archwilio'r posibiliadau y bydd y fenter strategol hon yn eu cyflwyno i ni a sut y gallai hyn ddylanwadu ar yr agenda diogelu strategol genedlaethol wrth symud ymlaen.

Mae gwella ac adeiladu ar ein fframwaith sicrhau ansawdd rhanbarthol presennol, ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei arwain gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a gwreiddio profiadau bywyd plant ac oedolion mewn perygl ymhellach yn rhaglen waith y bwrdd yn flaenoriaethau allweddol i ni eleni.

Nid oes gennym unrhyw amheuaeth y bydd yr ethos hirsefydlog o gydweithio a gwaith partneriaeth cryf ar draws asiantaethau yn ein rhanbarth yn ffynhonnell barhaus o gryfder wrth symud ymlaen a chyflawni ein hamcanion gyda'n gilydd.



Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)

Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin



Michael Gray (Cadeirydd CWMPAS)

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a
Thai
Cyngor Sir Penfro



EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pawb yn y rhanbarth yn byw eu bywydau yn rhydd rhag trais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio a bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i barch, ac wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn parch tuag at wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ymgysylltu a bod yn ymatebol i anghenion pob rhanddeiliad, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, yn hanfodol i hyrwyddo gweledigaeth y bwrdd.

Aelodau Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru



CWMPAS
(Bwrdd Gweithredol Diogelu
Oedolion)



CYSUR
(Bwrdd Gweithredol Diogelu
Plant)

<p>Michael Gray (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro</p>	<p>Jake Morgan (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin</p>
<p>Jayne Butler (Is-Gadeirydd) Ditectif Uwcharolygydd, Heddlu Dyfed–Powys</p>	<p>Christine Harley (Is-gadeirydd) Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol</p>
<p>Jake Morgan Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin</p>	<p>Michael Gray Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro</p>
<p>Audrey Somerton-Edwards Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Audrey Somerton-Edwards Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Nina Davies Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys</p>	<p>Nina Davies Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys</p>
<p>Sharon Daniel Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</p>	<p>Sharon Daniel Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</p>
<p>Claire Roche Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Claire Roche Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>
<p>Olwen Morgan Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Sicrwydd a Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</p>	<p>Olwen Morgan Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Sicrwydd a Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</p>
<p>Ifan Charles Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu Dyfed–Powys</p>	<p>Ifan Charles Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu Dyfed–Powys</p>
<p>Avril Bracey Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyngor Sir Caerfyrddin</p>	<p>Jayne Butler Ditectif Uwcharolygydd, Heddlu Dyfed–Powys</p>
<p>Donna Pritchard Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Jan Coles Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin</p>
<p>Mel Laidler Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Penfro</p>	<p>Donna Pritchard Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion</p>

Sharon Frewin Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys	Darren Mutter Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro
Christine Harley Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Sharon Powell Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys
Mandy Nichols-Davies Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Enwebedig), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Mandy Nichols-Davies Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Enwebedig), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jayne Wheeler-Sexton Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Enwebedig), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Jayne Wheeler-Sexton Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Enwebedig), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Debbie Pachu Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru	Debbie Pachu Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Swydd Wag Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Swydd Wag Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Chris Harrison Cynrychiolydd rhanbarthol Penaethiaid Comisiynu	Steve Davis Cynrychiolydd rhanbarthol Rheolwyr Cyfiawnder Ieuentid
	Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol Aelodaeth gylchol o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys
	Dr Ingrid Prosser Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
	Dr Damitha Ratnasinghe Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	
Julie Breckon Rheolwr Diogelu Strategol Rhanbarthol Plant ac Oedolion mewn Perygl	
Rebecca Reynolds Rheolwr Busnes Adolygu Ymarfer	
Theresa Welch Swyddog Datblygu Busnes	
Stuart Hicks Cydlynnydd Busnes	

CANLYNIADAU BLAENORIAETH STRATEGOL A NODWYD AR GYFER 2024-2025

- 1. Datblygu diwylliant o gydweithredu ac arloesi ar draws y bartneriaeth, sy'n hyrwyddo gweithlu diogel, medrus a gwydn.**
- 2. Mesur, rhoi tystiolaeth a deall effaith gwaith y bwrdd hwn ar arfer proffesiynol, a sut mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.**
- 3. Cynnal dadansoddiad systemig o berfformiad a newid sefydliadol i ddeall yn well eu heffaith ar blant ac oedolion mewn perygl.**
- 4. Parhau i ddylanwadu a chyfrannu at yr agenda strategol genedlaethol i gefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisi diogelu.**

Mae sut rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn a'r crynodeb o'r gwelliannau rydym yn bwriadu eu gwneud i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion wedi'u rhestru yn ein cynllun busnes isod.

Cynllun Busnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 2024-2025

1. Datblygu diwylliant o gydweithredu ac arloesi ar draws y bartneriaeth, sy'n hyrwyddo gweithlu diogel, medrus a gwydn.

Maes blaenoriaeth	Beth ydym am ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?
1.1 Rhannu gwybodaeth	Defnyddio datblygiadau mewn technoleg a'r llwyfannau digidol sydd ar gael, i hwyluso a gwella trefniadau rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau mewn arferion diogelu.	Bydd ymarfer peilot yn cael ei gynnal a'i werthuso yn y rhanbarth, gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella'r broses o rannu gwybodaeth ar gyfer pobl y nodwyd eu bod mewn mwy o berygl o niwed.
		Cynnydd mewn mecanweithiau i rannu gwybodaeth ar draws a rhwng asiantaethau'r bwrdd at ddibenion diogelu ac atal niwed.
		Bydd llwyfannau gwell yn bodoli ar gyfer rhannu a monitro pryderon.
1.2 Trothwyon	Gweithredu dogfen drothwy ranbarthol ddiwygiedig, i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i blant a'u teuluoedd ar draws y continwmm angen o ymyrraeth gynnar i blant sydd mewn perygl o niwed sylweddol.	Bydd asesiadau risg, ymyrraeth a darpariaeth gwasanaethau diogelu ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl yn amserol ac yn gymesur â lefel yr angen.
	Adolygu'r trothwyon presennol ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg a'u diweddarau'n unol â hynny gan ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth, polisi ac arfer.	Bydd lefel uwch o gysondeb yn amlwg wrth gymhwyso trothwyon ar draws ardaloedd y pedwar awdurdod lleol ac ymarferwyr o asiantaethau statudol trwy argaeledd canllawiau arferion clir.
1.3 Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol	Gweithredu'r safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant diogelu newydd a'r fframwaith ar draws holl asiantaethau'r bwrdd drwy'r Is-grŵp Hyfforddi.	Bydd y safonau yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ar draws yr holl asiantaethau partner yn y rhanbarth.
		Bydd plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn fwy diogel o ganlyniad i well gwybodaeth, sgiliau a darpariaeth hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â safonau cenedlaethol.
1.4 Datblygu ymagweddau cydweithredol	Cyfnertu a pharhau i weithredu strategaethau gweithlu presennol ar draws asiantaethau ar draws y rhanbarth.	Bydd cydweithredu ar arfer gorau a 'beth sy'n gweithio' o ran recriwtio a chadw a thwf yn cael ei ddefnyddio a'i rannu ar draws ffiniau'r awdurdod lleol ac asiantaethau.

tuag at y gweithlu diogelu		Bydd nifer y swyddi gwag a nifer y gweithwyr asiantaeth cyflogedig mewn meysydd gwasanaeth sy'n hanfodol i fusnes yn gostwng dros amser.
----------------------------	--	--

2. Mesur, rhoi tystiolaeth a deall effaith gwaith y bwrdd hwn ar arfer proffesiynol, a sut mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Maes blaenoriaeth	Beth ydym am ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?
2.1 Gwreiddio dealltwriaeth o brofiadau bywyd plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn nhrefodaethau'r bwrdd	Nodi cyfleoedd i ymgorffori llais defnyddwyr gwasanaethau yng ngweithgareddau a rhaglenni presennol y bwrdd. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys seremoni wobrwyo'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, cynnwys straeon defnyddwyr gwasanaethau / adborth mewn cyfarfodydd / digwyddiadau / hyfforddiant, grwpiau ffocws neu baneli.	Mae'r bwrdd yn gallu dangos tystiolaeth o lais defnyddwyr gwasanaethau o fewn ei fframweithiau a'i ffrydiau gwaith, a bod hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau a rhaglen waith y bwrdd.
	Recriwtio defnyddiwr gwasanaethau sy'n oedolyn i'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol fel ymarfer peilot un flwyddyn.	Bydd y cyfarfod bwrdd, y trafodaethau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan ddefnyddiwr gwasanaethau sy'n oedolyn sydd â phrofiad bywyd o arferion a gwasanaethau diogelu.
	Atgyfnerthu cysylltiadau â sefydliadau trydydd sector, e.e. y sector gwirfoddol / sefydliadau eiriolaeth, y gallai'r bwrdd hwn gydweithio â nhw i ddatblygu mecanweithiau i wrando ar lais defnyddwyr gwasanaethau.	Bydd llwybrau newydd yn cael eu datblygu sy'n galluogi plant ac oedolion mewn perygl, sy'n ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector, i rannu eu safbwyntiau a'u barn â'r bwrdd.
	Grwpiau Gweithredol Lleol i roi astudiaethau achos o brofiadau bywyd yn eu hagendâu, gan adlewyrchu'r model a ddatblygwyd o fewn agenda'r Bwrdd Gweithredol.	Bydd pob cyfarfod Grŵp Gweithredol Lleol yn canolbwyntio ar achos unigol i hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

2.2 Arferion diogelu oedolion	Datblygu a gwreiddio ymateb amlasiantaethol mwy cyson i arferion diogelu, wedi'u halinio â gweithdrefnau diogelu Cymru ar draws y rhanbarth.	Bydd oedolion mewn perygl sydd angen ymyrraeth neu wasanaeth yn cael ymateb mwy cymesur a chydlynol ar draws asiantaethau.
2.3 Atal hunanladdiad	Gwerthuso model ymateb cyflym peilot ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan weithred o hunanladdiad tybiedig.	Bydd rhwydweithiau cefnogol yn cael eu hatgyfnerthu o amgylch unigolyn a allai fod wedi marw drwy hunanladdiad.
		Bydd model sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gyflwyno i gynorthwyo cyfoedion, teulu ac aelodau o'r gymuned yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan ddigwyddiad o hunanladdiad tybiedig.
2.4 Cofrestr risg	Gweithredu cofrestr risg amlasiantaeth.	Bydd gallu'r bwrdd i weld risg amlasiantaeth lefel uchel yn cael ei wella, gan alluogi ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig i blant ac oedolion sy'n wynebu lefel uchel o risg.
2.5 Bwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (CADW)	Cynorthwyo CADW i adolygu ei aelodaeth, ffocws a rhaglen o ddigwyddiadau.	Bydd gwaith CADW yn cael ei yrru a'i lywio gan y bobl ifanc sy'n eistedd ar y Bwrdd Diogelu Iau.

3. Cynnal dadansoddiad systemig o berfformiad a newid sefydliadol i ddeall yn well eu heffaith ar blant ac oedolion mewn perygl.

Maes blaenoriaeth	Beth ydym am ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?
3.1 Archwiliadau	Datblygu a gwreiddio rhaglen archwilio amlasiantaeth.	Bydd prosesau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn cael eu hatgyfnerthu gan ddarparu dadansoddiad amlasiantaeth cyfannol o arferion diogelu a themâu allweddol.
3.2 Dysgu	Gwella ein dulliau o rannu dysg a lledaenu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer.	Bydd plant ac oedolion sydd mewn perygl yn fwy diogel o ganlyniad i ymyrraeth ac ymarfer diogelu mwy gwybodus, oherwydd gwybodaeth a hyfforddiant gwell.

	Defnyddio'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol i ledaenu'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer, archwiliadau amlasiantaethol a themâu a thueddiadau sicrhau ansawdd allweddol.	
3.3 Sicrhau ansawdd a pherfformiad	Adolygu fframwaith sicrhau ansawdd newydd y bwrdd ac archwilio cyfleoedd i gael data ansoddol	Bydd trefniadau adrodd amlasiantaethol i'r bwrdd yn cael eu hatgyfnerthu gan ddarparu darlun cyfannol o ymarfer a gweithgaredd amlasiantaethol.
	Casglu metrigau craidd y fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaeth (Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru).	Bydd prosesau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn cael eu halinio â ffrydiau gwaith cenedlaethol allweddol.
	Datblygu'r fframwaith presennol i gynnwys mecanwaith adrodd ar ddarpariaeth ac ansawdd hyfforddiant amlasiantaethol sy'n debyg i'r safonau a'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant diogelu.	Bydd trefniadau rhanbarthol ar gyfer adrodd ar ansawdd, darpariaeth a chomisiynu hyfforddiant diogelu yn cael eu cryfhau.

4. Parhau i ddylanwadu a chyfrannu at yr agenda strategol genedlaethol i gefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisi diogelu.

Maes blaenoriaeth	Beth ydym am ei gyflawni?	Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?
4.1 Adolygiad Diogelu Unedig Sengl	Arwain ar ddatblygu a gweithredu fframwaith hyfforddiant cenedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol, cyn rhoi'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar waith.	Bydd prosesau a llwyfannau ar gyfer dysgu gwersi o arferion diogelu yn cael eu hatgyfnerthu a'u gwella trwy ddatblygu hyfforddiant o ansawdd uchel.
	Gweithredu model yr adolygiad diogelu unedig sengl ar draws y rhanbarth ar weithrediad y canllawiau statudol sydd wedi'u trefnu ar gyfer hydref 2024.	Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac is-grwpiau perthnasol yn cadw at ganllawiau statudol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wrth gynnal adolygiadau rhanbarthol, gan gofleidio dysgu ehangach lladdiadau domestig a lladdiadau iechyd meddwl, gan gefnogi ymarfer a dysgu diogelu amlasiantaethol gwell.

4.2 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	Cefnogi grwpiau strategol a chyflawni rhaglenni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu rhaglen waith fel y nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r cynllun strategol.	Bydd cynnydd clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei wneud yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2023-2027, y gellir ei darllen yma . Bydd hyn yn gwella gwasanaethau ac arferion diogelu ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.
4.3 Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant	Dadansoddi ac ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad cenedlaethol a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a rhoi unrhyw gamau amlasiantaethol y mae eu hangen ar waith yn ôl yr angen.	Bydd y bwrdd yn nodi unrhyw gamau gweithredu clir sy'n benodol i'r rhanbarth y mae eu hangen i gyflawni'r amcanion a'r argymhellion sy'n codi o'r adolygiad cenedlaethol. Bydd y bwrdd yn gallu dangos cynnydd mewn perthynas â'r camau gweithredu amlasiantaeth hyn drwy waith monitro ac adrodd cadarn.
4.4 Marwolaethau babanod y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â chwsg diogel	Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hybu ymwybyddiaeth yn well ymhlith rhieni ac ymarferwyr o'r ffactorau risg cynyddol sy'n gysylltiedig ag arferion cysgu diogel ac anniogel ar gyfer babanod.	Bydd gwell dealltwriaeth o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chwsg diogel, ac o ganlyniad, gellir gwella'r cymorth a ddarperir i deuluoedd.
	Cynnull grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu offeryn neu fatrics asesu risg amlasiantaeth mewn perthynas â chwsg diogel.	
	Ystyried, drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn, ddulliau arloesol o gyfathrebu â rhieni am gwsg diogelach.	
4.5 Gweithdrefnau diogelu Cymru	Datblygu gweithrediad mwy cyson o adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer ymarferwyr a'r rhai sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth ledled Cymru a'r rhanbarth.	Bydd ffrydiau gwaith cenedlaethol yn y maes hwn yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr diogelu yn y rhanbarth hwn a bydd prosesau rhanbarthol yn cael eu cyfuno a'u hatgyfnerthu, gan hyrwyddo dull cydsyniol ar draws asiantaethau.

GWARIANT ARFAETHEDIG Y BWRDD I GYFLAWNI EIN HAMCANION

Awdurdodau lleol: <ul style="list-style-type: none"> Ceredigion 15% Powys 25% Sir Gaerfyrddin 35% Sir Benfro 25% 	60%	Iechyd: <ul style="list-style-type: none"> BIP Hywel Dda 75% BI Addysgu Powys 25% 	25%	Cyfanswm: 100%
Yr heddlu <ul style="list-style-type: none"> Heddlu Dyfed–Powys 	10%	Gwasanaeth prawf: <ul style="list-style-type: none"> Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol 	5%	

Cyllideb arfaethedig 2024-2025		Cyfraniadau asiantaeth arfaethedig 2024-2025	
Costau staff a chyflogau	205,890	Cyngor Sir Ceredigion	17,813
		Cyngor Sir Powys	29,610
Offer a meddalwedd TG	1,120	Cyngor Sir Caerfyrddin	41,348
Costau swyddfa, gweinyddol a recriwtio	8,400	Cyngor Sir Penfro	29,610
Teithio, lleoliadau a chyfathrebu	4,260	Heddlu Dyfed–Powys	19,727
Cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithiadau	9,500	Gwasanaeth Prawf Cymru	9,903
Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynir yn annibynnol a darparu hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn allanol	10,100	Bwrdd Iechyd Hywel Dda	36,949
		Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	12,310
		Cyllid Llywodraeth Cymru	42,000
CYFANSWM	239,270	CYFANSWM	239,270

Cronfeydd Prosiect Llywodraeth Cymru – Fframwaith Dysgu a Datblygu yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl	
2022/23	30,000
2023/24	70,000
2024/25	30,000
CYFANSWM DROS DAIR BLYNEDD	130,000

SUT YR YDYM YN BWRIADU CYDWEITHIO AG UNIGOLION NEU GYRFF ERAILL

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â'r holl fyrddau diogelu eraill yng Nghymru drwy fynychu cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y rheolwyr busnes a'r cydlynwyr busnes a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. F Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion da yn rheolaidd mewn perthynas ag adolygiadau ymarfer, cydlynu themâu a chyfathrebu Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, a digwyddiadau ad hoc / pwrpasol eraill a drefnir yn allanol. Yn benodol, bydd cydweithio cryf yn cael ei gyflawni eleni â rhanddeiliaid allweddol amrywiol wrth i ni oruchwylio'r gwaith o weithredu fframwaith dysgu a datblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Rydym yn parhau i lunio agenda a sgwrs ynghylch diogelu cenedlaethol, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar sawl ffrwd gwaith cenedlaethol i gefnogi'r agenda ddiogelu genedlaethol.

SUT RYDYM YN RHOI CYFLE I BOBL SY'N CAEL EU HEFFEITHIO GAN WAITH Y BWRDD I GYFRANOGI

Mae Bwrdd CYSUR yn parhau i gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol TGP Cymru i hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (CADW). Mae aelodau'r grŵp yn mynychu'r bwrdd gweithredol yn rheolaidd i drafod eu gwaith â'r aelodau. Mae'r grŵp yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a fydd eleni'n cynnwys dau ddigwyddiad preswyl. Bydd y grŵp yn parhau i roi cyngor a gwybodaeth i'r bwrdd gweithredol yn y flwyddyn i ddod ar amrywiaeth o faterion diogelu sy'n bwysig ac yn berthnasol i bobl ifanc. Ar ôl datblygu a lansio adnodd rhagorol y llynedd sy'n gwreiddio llais plant a phobl ifanc yn gadarn mewn hyfforddiant diogelu ar gyfer ymarferwyr amlasiantaeth, bydd y bwrdd yn gweithio gyda CADW eleni i werthuso'r gweithrediad hwn a cheisio eu barn ymhellach ar sut y gellir gwella ymarfer diogelu yn ein rhanbarth ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.

Yn ogystal â'r bwrdd CADW rhanbarthol, mae gan bob un o'r bedair sir leol, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, eu grwpiau a phartneriaethau diogelu iau lleol eu hunain. Mae'r rhain wedi'u halinio'n agos â thri o'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol amlasiantaeth lle mae aelodau iau yn mynd i gyfarfodydd y Grwpiau Gweithredol Lleol ar faterion diogelu lleol ar gyfer pobl ifanc ac yn rhannu gwybodaeth â nhw. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i sicrhau bod y grŵp iau rhanbarthol presennol a'r aelodaeth yn cysylltu'n agosach â grwpiau a fforymau diogelu lleol fel yr amlinellwyd uchod, a bod eu barn yn cynrychioli'r rhanbarth cyfan. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn y flwyddyn i ddod.

Mae angen gwneud mwy o ymdrech i ennyn diddordeb oedolion sy'n wynebu risg o ran gwaith y bwrdd, a bydd hyn yn cael ei symud ymlaen yn y flwyddyn i ddod trwy nifer o amcanion a nodir yn ein cynllun strategol blynyddol. Byddwn yn parhau i wrando ar leisiau dioddefwyr cam-drin domestig eleni fel yr amlinellwyd yn y strategaeth ranbarthol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (2023-2027): [Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(2023-2027\)](#)

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan: <https://cysur.cymru/>

SUT I ADRODD AM BRYDERON

Os ydych yn amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn **yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999** a siaradwch â'r **heddlu**.

Os hoffech chi adrodd ar ddigwyddiad **nad yw'n fater brys** neu os oes gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio **101** i gyrraedd y gwasanaeth 24 awr y dydd ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys.

Os ydych yn pryderu am ddiogelwch neu les plentyn, mae gennych ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith – cysylltwch â:

SIR GAERFYRDDIN:

Yn ystod oriau swyddfa: Tîm atgyfeirio canolog – 01554 742322 (8.45am – 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.45am – 4.30pm dydd Gwener)

Tu allan i oriau swyddfa: 0300 333 2222

Cyfeiriad e-bost: CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk

CEREDIGION:

Yn ystod oriau swyddfa: Canolfan gyswllt – 01545 574000

Tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 4563554

Cyfeiriad e-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

SIR BENFRO:

Yn ystod oriau swyddfa: Tîm asesu 01437 776444

Tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 333 2222

E-bost: CCAT@pembrokeshire.gov.uk

POWYS:

Drws Ffrynt: 01597 827666 (8.45am – 4.45pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.45am – 4.15pm dydd Gwener)

Tu allan i oriau swyddfa: 0845 0544847

Cyfeiriad e-bost: csfrontdoor@powys.gov.uk

Os ydych yn pryderu am ddiogelwch neu les oedolyn, mae gennych ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith – cysylltwch â:

SIR GAERFYRDDIN:

Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar 0300 333 2222 (ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) neu gwnewch atgyfeiriad trwy'r wefan www.sirgar.llyw.cymru

Cyfeiriad e-bost: iaa@deltawellbeing.org.uk

CEREDIGION:

Yn ystod oriau swyddfa: Canolfan gyswllt – 01545 574000

Tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 4563554

Cyfeiriad e-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

SIR BENFRO:

Yn ystod oriau swyddfa: Tîm dyletswydd – 01437 776056

Tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 333 2222

Cyfeiriad e-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk

POWYS:

Yn ystod oriau swyddfa: 03456 027050 (8.30am – 4.45pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.30am – 4.15pm dydd Gwener)

Tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 333 2222

Cyfeiriad e-bost: assist@powys.gov.uk